# FFURFLEN FANYLION

| | |
|---|---|
| **Teitl y Ddogfen:** | Y Polisi ar Ymarfer Annheg |
| **Y Math o Ddogfen:** | Polisi / Gweithdrefn |
| **Perchennog y Ddogfen:** | Cyfarwyddwr Cwricwlwm ac Ansawdd |
| **Uwch Gyfarwyddwr â Chyfrifoldeb:** | Y Gwasanaethau Academaidd |
| **Pwrpas:** | Mewn partneriaeth â staff a myfyrwyr, nod y polisi hwn yw cynnal uniondeb academaidd a mynd i'r afael â chamymddwyn academaidd Yr egwyddor sy'n graidd i'r polisi yw bod rhaid i unrhyw waith a gyflwynir i'w asesu fod yn waith y myfyriwr ei hun, gan gynnwys y cynnwys ysgrifenedig, y strwythur, y dadleuon, y dehongliadau, a'r casgliadau. Mae'r polisi'n amlinellu'r gweithredoedd a allai dorri'r egwyddor hon ac y gellid eu hystyried yn gamymddwyn academaidd pe caent eu profi. |
| **Cylch Adolygu:** | **Bob dwy flynedd** |

| | |
|---|---|
| **Sut mae'n cysylltu â'r Cynllun Strategol:** | |
| Bod ar flaen y gad yn y byd modern / Ein lle yn y gymuned / Cyfleoedd i ddysgwyr a llwyddiant dysgwyr / Defnyddio sgiliau a gwybodaeth i ysgogi'r economi | |
| **Sut mae'n cysylltu â'r Gofrestr Risg:** | |
| STR0004 Diffyg capasiti/gallu yn yr holl feysydd arbenigol allweddol<br>STR0008 Pryderon ynghylch ansawdd y profiadau dysgu. | |
| **Sut mae'n cysylltu â'n gwerthoedd:** | Ymddiriedaeth / Tegwch / Parch / Gonestrwydd / |

| **Rhestr Wirio i'w Chymeradwyo:** | **Dyddiad:** |
|---|---|
| • Y drafft cyntaf wedi'i uwchlwytho i Borth y Grŵp ar gyfer ymgynghoriad cychwynnol â staff (RL) | 24/03/25 |
| • Y drafft cyntaf wedi'i anfon i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol ar gyfer pythefnos o ymgynghoriad cychwynnol (RL) | 24/03/25 |
| • Yr Asesiadau Effaith wedi'u cwblhau | 20/05/25 |

| | |
|---|---|
| • Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Grŵp Ansawdd a Safonau Academaidd AU | 09/04/25 |
| • Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol (os yw hyn yn berthnasol) | 21/05/25 |
| • Y drafft terfynol wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Diogelwch, Iechyd ac Amgylchedd (SHE) (os yw hyn yn berthnasol) | N/A |
| • Cymeradwyaeth yr undebau yn y Cydbwyllgor Ymgynghorol | 21/05/25 |
| • Y Polisi wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Cwricwlwm, Myfyrwyr a Safonau | 03/06/25 |
| • Y Polisi wedi'i gyflwyno i'r Bwrdd | 26/06/25 |
| • Y Polisi wedi'i gyfieithu a'i uwchlwytho i Borth y Grŵp | 20/08/25 |

| Adran | Disgrifiad o'r newid |
|---|---|
| 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 10, 13 | Iaith symlach |
| 7.1 | Wedi cynnwys cyfeiriad at ddeallusrwydd artiffisial |
| 8.3 | Cadarnhau na chaniateir defnyddio meddalwedd canfod deallusrwydd artiffisial |
| 8.4 | Wedi cynnwys paragraff ar ddangosyddion ymarfer annheg |
| 9 | Adran wedi'i dileu a'i chynnwys yn Adran 8 |
| 10 | Cynnwys gwybodaeth ynghylch cynnal VIVAs |
| 11, 12 | Adran wedi'i dileu a'i chynnwys yn Adran 10 |
| 14 | Yr adran ar Weithdrefn y Panel Ymarfer Annheg wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r broses bresennol ac i fod yn gliriach ac yn symlach |
| 15 | Adran newydd ar Amgylchiadau Esgusodol |
| 16 | Cosbau newydd i roi mwy o hyblygrwydd i aelodau'r panel ac i gyd-fynd â phroses Prifysgol Bangor |
| 22 | Siart llif y weithdrefn newydd |

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| 1. I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol? | 4 |
| 2. Pwrpas y Polisi | 4 |
| 3. Datganiad Polisi | 4 |
| 4. Dull Gweithredu | 4 |
| 5. Monitro a Mesur Effaith | 4 |
| 6. Pwrpas y Weithdrefn Hon | 5 |
| 7. Diffiniadau o Ymarfer Annheg | 5 |
| 8. Canfod Ymarfer Annheg | 6 |
| 9. Y Drefn ar gyfer Cynnal Cyfweliad Ymchwilio | 7 |
| 10. Y Drefn ar gyfer Mân Achosion o Ymarfer Annheg | 8 |
| 11. Gweithdrefn y Panel Ymarfer Annheg | 9 |
| 12. Amgylchiadau Esgusodol | 11 |
| 13. Cosbau | 11 |
| 14. Cysylltiad ag Addasrwydd i Ymarfer | 13 |
| 15. Cefnogaeth i Fyfyrwyr mewn Gwrandawiadau | 13 |
| 16. Presenoldeb mewn Panel Ymarfer Annheg | 13 |
| 17. Apeliadau | 14 |
| 18. Amserlen Paneli Ymarfer Annheg | 14 |
| 19. Siart Llif y Weithdrefn Ymarfer Annheg | 16 |
| 20. Asesiadau Effaith | 17 |

## 1. I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?

1.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n dilyn rhaglenni AU y mae un o'r sefydliadau dyfarnu AU a ganlyn wedi awdurdodi GLlM i'w darparu;

- Rhaglenni AU a ddilyswyd gan Brifysgol Bangor er mwyn i Grŵp Llandrillo Menai eu darparu
- Edexcel/Pearson

1.2 Dylai myfyrwyr sy'n dilyn rhaglenni AU a ddyfernir gan sefydliadau eraill edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar gael ar Amgylchedd Dysgu Rhithwir y Rhaglen, gwefan GLlM neu wefan y sefydliad dyfarnu.

## 2. Pwrpas y Polisi

2.1 Mewn partneriaeth â staff a myfyrwyr, nod y polisi hwn yw cynnal uniondeb academaidd a mynd i'r afael â chamymddwyn academaidd. Yr egwyddor sy'n graidd i'r polisi hwn yw bod rhaid i unrhyw waith a gyflwynir i'w asesu fod yn waith y myfyriwr ei hun, gan gynnwys y cynnwys ysgrifenedig, y strwythur, y dadleuon, y dehongliadau, a'r casgliadau. Mae'r polisi'n amlinellu'r gweithredoedd a allai dorri'r egwyddor hon ac y gellid eu hystyried yn gamymddwyn academaidd pe caent eu profi.

## 3. Datganiad Polisi

3.1 Ystyrir unrhyw weithred sy'n rhoi mantais na chaniateir mohoni i chi eich hun neu i rywun arall yn ymarfer annheg. Bydd hyn yn berthnasol os yw'r myfyriwr yn gweithio ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag eraill. Gall gweithredoedd o'r fath ddigwydd mewn arholiad ffurfiol, gwaith cwrs, neu unrhyw fath arall o asesiad a gwblheir fel rhan o gymhwyster.

3.2 Mae'r Grŵp yn disgwyl i bob myfyriwr fod yn gyfrifol am ddiogelu ei waith ei hun ac am gymryd camau rhesymol i rwystro eraill rhag ei gopïo.

## 4. Dull Gweithredu

4.1 Mae Grŵp Llandrillo Menai wedi ymrwymo i:

- Sicrhau bod y Weithdrefn ar Ymarfer Annheg yn cael ei gweithredu mewn dull teg, cyson ac amserol.
- Darparu gwybodaeth glir am y weithdrefn a'r diffiniad o ymarfer academaidd annheg mewn llawlyfrau rhaglenni ac ar Amgylchedd Dysgu Rhithwir y Myfyrwyr.
- Sicrhau bod adnoddau a chefnogaeth ar-lein ar gael i fyfyrwyr i'w helpu i ddeall sut i osgoi llên-ladrad.
- Sicrhau y cedwir at egwyddorion cyfiawnder naturiol wrth weithredu'r weithdrefn hon.

4.2 Er mwyn eu cynorthwyo i ddeall y polisi, mae cynnig gweithredol o gefnogaeth ar gael i bob aelod o staff a myfyriwr fel y bo'n briodol.

4.3 Trwy hyfforddiant gorfodol ar ragfarn ddiarwybod a chydraddoldeb ac amrywiaeth, darperir cefnogaeth ac arweiniad i staff i sicrhau proses niwtral o wneud penderfyniadau.

## 5. Monitro a Mesur Effaith

5.1 Bydd yr achosion o Ymarfer Annheg yn cael eu hadrodd i'r Byrddau Arholi Allanol a'r Arholwyr / Cymedrolwyr Allanol. Bydd y Pwyllgor Ansawdd a Safonau Addysg Uwch yn monitro nifer yr achosion a'u difrifoldeb.

5.2 Caiff y Polisi ar Ymarfer Annheg ei fonitro a'i adolygu bob dwy flynedd yn unol â phroses gymeradwyo polisïau AU Grŵp Llandrillo Menai a'r corff dyfarnu.

## 6. Pwrpas y Weithdrefn Hon

6.1 Mae'r weithdrefn hon yn atgyfnerthu uniondeb academaidd ac yn mynd i'r afael ag achosion o gamymddwyn academaidd mewn cydweithrediad â staff a myfyrwyr. Yr egwyddor sylfaenol yw bod rhaid i unrhyw waith a gyflwynir fod yn waith y myfyriwr ei hun, gan gynnwys y mynegiant ysgrifenedig, y strwythur, y dadleuon, y dehongliadau, a'r casgliadau. Mae'r weithdrefn hon yn amlinellu'r gweithredoedd a allai fod yn groes i'r egwyddor hon ac a allent fod yn achos o Ymarfer Annheg pe caent eu profi.

## 7. Diffiniadau o Ymarfer Annheg

7.1 Dyma enghreifftiau o'r mathau o ymddygiad y gellid eu hystyried yn ymarfer annheg. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol ac mae'r Grŵp yn cadw'r hawl i nodi gweithredoedd eraill fel ymarfer annheg o dan y weithdrefn, os ystyrir bod hynny'n briodol.

**1. Enghreifftiau o Gamymddwyn Academaidd mewn gwaith cwrs**

a. **Llên-ladrad:** Defnyddio geiriau neu syniadau rhywun arall heb eu cydnabod yn gywir, a'u cyflwyno i'w hasesu fel eich gwaith eich hun. Mae hyn yn cynnwys copïo deunyddiau o'r rhyngrwyd, defnydd annheg o feddalwedd deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, ailysgrifennu deunydd cyhoeddedig heb ddyfynnu'r ffynhonnell, a chyfieithu deunyddiau gan ddefnyddio dulliau a chafodd eu hawdurdodi.
b. **Cydgynllwynio:** Cydweithio â rhywun arall i gyflwyno rhan o'r gwaith neu'r gwaith cyfan fel eich gwaith eich hun. Mae hyn yn cynnwys cynnig helpu drwy ysgrifennu neu gynnig rhan neu'r cyfan o waith person arall. Mae'n berthnasol hefyd pan gyflwynir gwaith un myfyriwr o dan enw myfyriwr arall neu pan fydd dau neu fwy o fyfyrwyr yn cyflwyno gwaith sy'n union yr un fath neu'n debyg iawn. Os yw'r awdur gwreiddiol yn ymwybodol o hyn neu os yw'r awdur gwreiddiol wedi bod yn ddiofal ynghylch y posibilrwydd y gall ei waith yn cael ei gopïo, gall y ddau fyfyriwr gael eu dal yn gyfrifol.
c. **Trydydd Parti:** Mae hyn yn cynnwys gweithred lle bo trydydd parti yn cyflawni gwaith ar ran y myfyriwr, p'un ai am arian neu beidio. Gall trydydd parti gynnwys myfyriwr arall, ffrind neu aelod o'r teulu, ond os yw'n fyfyriwr, ymdrinnir â'r myfyriwr hwnnw hefyd yn unol â'r weithdrefn hon. Mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys deunyddiau a gafwyd o wefannau traethodau masnachol neu asiantaethau tebyg.
d. **Hunan Lên-ladrad:** Ailddefnyddio, un ai'n rhannol neu'n llawn, waith a gyflwynwyd eisoes am gredyd academaidd, oni bai bod y gwaith wedi'i gyfeirnodi'n briodol neu'n cael ei ailgyflwyno ar ôl methu'n flaenorol a chael ei awdurdodi gan dîm y rhaglen.
e. **Llunio Data Ffug:** Gwneud honiadau ffug ynglŷn â chynnal arbrofion, arsylwadau, cyfweliadau neu ddulliau eraill o gasglu a dadansoddi data.
f. **Moesegol:** Cynnal ymchwil heb y gymeradwyaeth foesegol ofynnol a/neu ganiatâd perthnasol arall. Methu â chael cysyniad priodol ar sail gwybodaeth gan gyfranogwyr mewn prosiectau ymchwil neu fethu â glynu wrth brotocolau y cytunwyd arnynt ar gyfer derbyn a chofnodi caniatâd.
g. Hyrwyddo ffyrdd o dorri uniondeb academaidd drwy rannu gwybodaeth â myfyrwyr eraill am ffyrdd o gamymddwyn yn academaidd, neu drwy hwyluso camymddwyn academaidd.
h. Cyflwyno tystiolaeth ffug am amgylchiadau esgusodol i Fwrdd Arholi.

**2. Enghreifftiau o Gamymddwyn Academaidd mewn arholiadau**

a. Mynd â deunyddiau fel llyfr, papurau rhydd, ffôn symudol neu ddyfais glyfar i ystafell arholiad heb ganiatâd.
b. Celu gwybodaeth arnynt eu hunain i fynd i'r ystafell arholiad, e.e. ysgrifennu gwybodaeth ar y dwylo, breichiau ac ati.
c. Copïo gan berson arall yn yr ystafell arholiad.
d. Cyfathrebu â pherson arall yn yr ystafell arholiad.
e. Sefyll arholiad yn lle myfyriwr arall neu ganiatáu i rywun arall sefyll arholiad yn eich lle chi.
f. Cyflwyno sgript arholiad fel eich gwaith eich hun pan fydd y sgript yn cynnwys deunydd a gynhyrchwyd trwy ddulliau anawdurdodedig gan gynnwys cydgynllwynio.
g. Derbyn gwybodaeth gyfyngedig yn ymwneud â'r asesiad heb gymeradwyaeth goruchwyliwr yr arholiad.
h. Cyflwyno tystiolaeth ffug am amgylchiadau esgusodol i Fwrdd Arholi.

## 8. Canfod Ymarfer Annheg

8.1 Os bydd arholwr mewnol neu allanol, neu unrhyw un arall, yn ystod y cyfnod marcio neu wedyn, yn amau myfyriwr o ymarfer annheg, rhaid iddynt gyflwyno adroddiad ar y mater i'r Arweinydd Rhaglen. Rhaid hysbysu'r Cydlynydd Sicrhau Ansawdd am bob achos a amheuir o ymarfer annheg.

8.2 Os yw'n bosibl, dylid cefnogi achosion a amheuir o ymarfer annheg â thystiolaeth ddogfennol glir sydd er enghraifft, yn nodi ffynhonnell unrhyw destun neu ddeunydd sydd wedi cael ei lên-ladrata. Mewn achosion lle amheuir llên-ladrad, gellir darparu adroddiad gwreiddioldeb Turnitin Ni ddylid defnyddio adroddiadau a gynhyrchir gan Turnitin fel yr unig sail ar gyfer dod i benderfyniad ynghylch camymddwyn academaidd. Rhaid i'r staff academaidd sy'n gyfrifol am farcio aseiniadau adolygu a dehongli'r canlyniadau i benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â honiad o Ymarfer Annheg. Yn ogystal, rhaid ystyried dangosyddion Ymarfer Annheg eraill, fel yr amlinellir ym mharagraff 7.3. Fel canllaw, dylai adroddiad tebygrwydd Turnitin o 20% neu uwch ysgogi ymchwiliad pellach gan y marciwr.

8.3 Turnitin yw'r unig feddalwedd canfod llên-ladrad y caniateir ei defnyddio yn GLlM. Ni ddylai timau rhaglenni ddefnyddio meddalwedd canfod deallusrwydd artiffisial, ac ni ellir cyflwyno adroddiadau o'r fath fel tystiolaeth ddogfennol.

8.4 Rhaid i staff sy'n marcio gwaith myfyrwyr ddefnyddio eu barn broffesiynol i benderfynu a yw llên-ladrad, defnyddio deallusrwydd artiffisial neu fathau eraill o Ymarfer Annheg wedi digwydd. Gall dangosyddion Ymarfer Annheg gynnwys:

a. Mae'r gwaith, neu rannau ohono, yn rhagori ar alluoedd ymchwil neu ysgrifennu'r myfyriwr ac yn ymddangos yn rhy broffesiynol, newyddiadurol, neu ysgolheigaidd.
b. Mae'r gwaith yn cynnwys geirfa gymhleth, termau technegol, neu ymadroddion sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir gan fyfyriwr ar y lefel dan sylw.
c. Mae ansawdd yr ysgrifennu'n anghyson, fel corff wedi'i ysgrifennu'n dda ond cyflwyniad neu gasgliad wedi'i ysgrifennu'n wael.
d. Anghysondebau fformatio, gan gynnwys gwahaniaethau yn nyluniad, ffont, cyfeiriadau neu gynllun y dudalen.
e. Mae yna ddolenni wedi'u hymgorffori, toriadau tudalen anarferol, neu rifau tudalen anghywir.
f. Nid yw pwnc y gwaith yn cyd-fynd â'r aseiniad, y darlithoedd dosbarth, na'r deunyddiau a ddarparwyd.

g. Llyfryddiaeth anarferol, fel rhestr gyfeiriadau sy'n rhy hir, arddulliau dyfynnu anghyson, dibyniaeth ar ffynonellau hen ffasiwn neu aneglur, neu gyfeiriadau at ddeunyddiau nad ydynt ar gael yn llyfrgell y coleg. Gall staff chwilio catalog y llyfrgell i wirio argaeledd y deunyddiau.
h. Gellir defnyddio'r un technegau chwilio y mae myfyrwyr yn eu defnyddio i ddod o hyd i bapurau ar y rhyngrwyd i ganfod papurau sy'n cynnwys deunydd wedi'i lên-ladrata. Gellir teipio ymadrodd o waith myfyriwr i beiriant chwilio i ganfod ffynonellau sydd wedi'u copïo.
i. Testun sy'n debyg iawn i ffynonellau eraill, hyd yn oed os nad yw'n union yr un fath. Mae llên-ladrad yn cynnwys amnewid rhai geiriau, aildrefnu brawddegau, neu ailysgrifennu cynnwys heb ddyfynnu'r ffynhonnell wreiddiol yn gywir ar gyfer syniadau neu ffeithiau.

8.5 Yn ystod yr ymchwiliad i'r honiad, dylid rhoi marc o 0% am y gwaith dan sylw. Os na ellir cwblhau'r ymchwiliad cyn cynnal bwrdd arholi, bydd y marc o 0 yn cael ei brosesu.

8.6 Os amheuir achos o ymarfer annheg, bydd cyfweliad ymchwilio'n cael ei gynnal.

8.7 Os amheuir bod cydgynllwynio wedi digwydd, dylid cynnal trafodaeth gychwynnol â thîm y rhaglen er mwyn sicrhau nad yw ystyr cydweithio wedi'i gam-ddeall. Lle caniateir gwaith grŵp, mae'n bwysig bod myfyrwyr yn cael gwybod beth yw'r canllawiau. Os na nodir i'r gwrthwyneb, dylai unrhyw waith a gyflwynir i'w asesu gael ei gwblhau'n unigol.

## 9. Y Drefn ar gyfer Cynnal Cyfweliad Ymchwilio

9.1 Os yw'r marciwr yn amau bod ymarfer annheg wedi digwydd, bydd y myfyriwr dan sylw yn cael ei gyfweld i benderfynu a oes achos dilys i'w ateb.

9.2 Mae'r cyfweliad ymchwilio'n arbennig o bwysig pan nad yw'r marciwr yn gallu dod o hyd i ddigon o dystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r honiad. Mae hyn yn arbennig o wir mewn achosion lle mae amheuaeth o ddefnyddio deallusrwydd artiffisial, ond nad oes digon o dystiolaeth i gadarnhau'r pryder cychwynnol.

9.3 Dylid dilyn y weithdrefn ganlynol wrth gynnal cyfweliad ymchwilio:

1. Dylai'r marciwr hysbysu'r Arweinydd Rhaglen o'i amheuon. Os yw'r Arweinydd Rhaglen yn marcio, dylid trafod y mater ag aelod arall o dîm y rhaglen. Dylid hysbysu'r Rheolwr Maes Rhaglen o bryderon y marciwr hefyd.
2. Gall yr Arweinydd Rhaglen ofyn i aelod arall o'r staff, nad yw'n ymwneud â'r marcio ond sydd â'r arbenigedd priodol, gynnal y cyfweliad â'r myfyriwr.
3. Gwahoddir y myfyriwr i gyfarfod â'r aelod staff enwebedig a chaiff gyfle i egluro sut y cafodd y darn o waith ei ddatblygu.

9.4 Dylid egluro i'r myfyriwr ymlaen llaw nad rhan o'r broses asesu yw'r cyfarfod ond yn hytrach cam tuag at benderfynu a oes achos o ymarfer annheg wedi digwydd. Dylid annog y myfyriwr i ddod ag unrhyw ddrafftiau blaenorol o'r aseiniad i'w cyfweliad ynghyd ag unrhyw nodiadau bras a wnaed wrth ei ddatblygu.

9.5 Argymhellir bod y pynciau canlynol yn cael eu trafod yn ystod y cyfarfod: Dylid gwneud pob ymdrech i roi cyfle i'r myfyriwr ddangos mai ei waith ei hun yw'r gwaith.

a. Y ffynonellau a ddefnyddiodd y myfyriwr
b. Y fethodoleg a ddefnyddiwyd
c. Y prosesau meddwl a arweiniodd at y casgliadau/canfyddiadau
d. Trafodaeth am y cynllunio a'r fersiynau drafft
e. Y broses ddatblygu a ddilynwyd wrth ysgrifennu'r aseiniad, yn enwedig yr amserlen
f. Dealltwriaeth y myfyriwr o ddeilliannau dysgu'r pwnc

9.6 Pan na all y marciwr ddod o hyd i ddigon o dystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r honiad, yn enwedig mewn achosion lle mae amheuaeth o ddefnyddio deallusrwydd artiffisial, dylid cynnal VIVA (arholiad llafar). Mae hyn yn helpu i sicrhau bod gan y myfyriwr y wybodaeth briodol ar gyfer ei asesiad ac yn galluogi tiwtoriaid i nodi unrhyw enghreifftiau posibl o ymarfer annheg. Bwriad viva yw asesu a yw'r myfyriwr yn deall ei waith ac yn gallu egluro'r hyn a wnaeth ac a ddysgodd.

9.7 Argymhellir bod y pynciau canlynol yn cael eu trafod yn ystod VIVA:

a. Cwestiynau sy'n asesu dealltwriaeth gysyniadol gyffredinol y myfyriwr o'r pwnc neu'r testun.
b. Cwestiynau am bynciau penodol sydd wedi'u cynnwys yn y gwaith.
c. Sut yr ymchwiliodd y myfyriwr i'r pwnc a chynllunio ar gyfer ei asesiad.
d. Cwestiynau sy'n annog y myfyriwr i ystyried ei waith yn feirniadol, fel beth sy'n dda neu ddim cystal am ei waith ac a oedd wedi meddwl am syniadau neu ffyrdd eraill o fynd ati.
e. Gofyn i'r myfyriwr grynhoi ei waith, yr hyn y mae wedi'i ddysgu ac a fyddai'n gwneud unrhyw beth yn wahanol.

9.8 Os penderfynir, o ganlyniad i'r cyfweliad, nad oes achos o ymarfer annheg wedi digwydd, ni chymerir unrhyw gamau pellach o dan y Weithdrefn ar Ymarfer Annheg a bydd y gwaith yn cael ei farcio fel arfer.

9.9 Os penderfynir yn y cyfweliad ymchwilio bod tystiolaeth o ymarfer annheg, rhaid trafod y mater gyda'r Cydlynydd Sicrhau Ansawdd, a fydd yn dweud a ddylid ei drin fel mân achos neu a ddylid ei uwchgyfeirio i Banel Ymarfer Annheg.

9.10 Dylai'r Arweinydd Rhaglen gadw cofnod ffurfiol o'r cyfweliad ymchwilio, gan anfon copi at y Cydlynydd Sicrhau Ansawdd.

9.11 Os bydd y myfyriwr yn gwrthod dod i Gyfweliad Ymchwilio neu'n gwrthod ymateb i'r cais (yn dilyn un nodyn atgoffa) bydd y Cyfarwyddwr Cwricwlwm ac Ansawdd, ar sail argymhellion y marciwr a'r Panel Cyfweld, yn penderfynu a oes angen bwrw ymlaen â'r mater o dan y Weithdrefn ar Ymarfer Annheg.

## 10. Y Drefn ar gyfer Mân Achosion o Ymarfer Annheg

10.1 Os yw'r holl ffactorau canlynol yn berthnasol, gellir dosbarthu'r drosedd fel Mân Achos:

1. Dyma'r achos cyntaf o gamymddwyn academaidd;
2. Mae'r camyddwyn wedi digwydd ar lefel 4*
3. Mae arwyddion bod y camymddwyn wedi digwydd oherwydd diffyg ymarfer academaidd yn hytrach nag yn sgil ymgais fwriadol i gael mantais annheg.

**gellir gwneud eithriadau prin yn achos myfyrwyr sy'n astudio modiwlau annibynnol ar lefelau uwch, neu fyfyrwyr sy'n astudio ar lefel uwch a dderbyniodd drosglwyddiad credyd yn sgil dysgu drwy brofiadau.*

10.2 Yn dilyn y cyfweliad ymchwilio, os bodlonir yr holl feini prawf hyn, gellir gwneud penderfyniad i ddosbarthu'r camymddwyn fel mân achos. Mewn achosion o'r fath, dylid cefnogi'r myfyriwr gyda'i waith ysgrifennu academaidd er mwyn sicrhau nad yw'r camymddwyn yn digwydd eto. Dylai'r Arweinydd Rhaglen gynnig cyfarfod i'r myfyriwr i'w gefnogi. Gallai'r cymorth ychwanegol gynnwys sesiynau ar sgiliau astudio academaidd dros gyfnod penodol o amser neu unrhyw ddull arall mae'r Arweinydd Rhaglen yn ei ystyried yn briodol.

10.3 Os bydd achos arall o ymarfer annheg yn erbyn y myfyriwr, bydd hyn yn cael ei gyfeirio'n awtomatig at Banel Ymarfer Annheg.

10.4 Dylai'r Cydlynydd Sicrhau Ansawdd hysbysu'r myfyriwr yn ffurfiol ar bapur o'r mân achos, gan egluro'r camau y dylai eu cymryd i sicrhau gwelliant. Dylid hefyd ei gwneud yn glir i'r myfyriwr yr ymdrinnir yn ffurfiol ag unrhyw achosion pellach o ymarfer annheg. Dylid gwneud cofnod o'r digwyddiad ar eDRAC. Dylid marcio'r gwaith yn unol â'r meini prawf asesu a'r cynllun marcio arferol, gan anwybyddu'r rhannau hynny nad ydynt yn waith gwreiddiol gan y myfyriwr.

10.5 Rhaid hysbysu'r Cydlynydd Sicrhau Ansawdd o bob achos y penderfynwyd ei fod yn fân achosion o ymarfer annheg. Os penderfynir y dylid rhoi'r achos ger bron Panel sy'n ymdrin ag Ymarfer Annheg, bydd Arweinydd y Rhaglen yn hysbysu'r Cydlynydd Sicrhau Ansawdd a fydd wedyn yn galw cyfarfod o'r Panel ac yn rhoi gwybod i'r myfyriwr yn ysgrifenedig.

## 11. Gweithdrefn y Panel Ymarfer Annheg

11.1 Bydd y Panel yn cynnwys:

- **Cadeirydd:** Y Cyfarwyddwr Cwricwlwm ac Ansawdd
- Y Rheolwr Sicrhau Ansawdd AU (a all gadeirio os bydd angen)
- Rheolwr Llyfrgell ac Adnoddau Dysgu'r Grŵp (aelod annibynnol)

Aelod wrth gefn er mwyn cael cworwm os bydd rhywun yn absennol:

- Rheolwr Dysgu ac Addysgu
- Rheolwr Sicrhau Ansawdd

11.3 Bydd y Cydlynydd Sicrhau Ansawdd yn bresennol drwy'r adeg yng nghyfarfodydd y Panel i roi arweiniad (mewn perthynas â rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol/y corff dyfarnu, ac yn ystod y drafodaeth mewn perthynas â'r gosb y dylid ei phennu, gan roi arweiniad wrth ystyried y cynseiliau.

11.4 Bydd y canlynol hefyd yn bresennol yng nghyfarfod y panel:

- Arweinydd y Rhaglen a/neu ei enwebai a fydd yn cyflwyno'r achos yn erbyn y myfyriwr
- Rheolwr y Rhaglen a all fod yn bresennol i gefnogi Arweinydd y Rhaglen yn ôl y galw.
- Y myfyriwr, a all fod yng nghwmni rhywun i gefnogi.

11.5 Dylai'r Arweinydd Rhaglen anodi'n glir yr holl dystiolaeth ddogfennol sy'n ategu'r achos a'i rhoi i'r Panel. Dylai'r dogfennau hyn gynnwys Adroddiad Gwreiddioldeb Turnitin (os yw'n berthnasol), briff yr aseiniad (yn achos asesiadau nad ydynt yn arholiadau), a chyfarwyddiadau'r arholiad (yn achos asesiadau a arholir).

11.6 Yn unol â'r amserlenni a nodir yn adran 18 y polisi hwn, bydd y Cydlynydd Sicrhau Ansawdd yn hysbysu'r myfyriwr a'r aelodau am ddyddiad, amser a lleoliad y Panel (os yw hyn yn berthnasol) ac yn darparu copïau o unrhyw ddogfennau i'w hystyried.

11.7 Bydd y myfyriwr yn derbyn copi o'r polisi ac yn cael ei hysbysu o'i hawliau, gan gynnwys ei hawl i ddod â rhywun i'r gwrandawiad, i ddarparu tystiolaeth o unrhyw amgylchiadau esgusodol yn unol â'r Polisi ar Amgylchiadau Esgusodol, ac i glywed yr holl dystiolaeth. Os bydd y myfyriwr yn darparu tystiolaeth ddogfennol ychwanegol yn ystod y panel, ni ellir derbyn y dystiolaeth honno heb ganiatâd penodol y Cadeirydd. Bydd gofyn i'r myfyriwr gysylltu â'r Cydlynydd Sicrhau Ansawdd i gadarnhau a fydd yn dod i'r gwrandawiad ai peidio, ac a fydd yn dod â rhywun yn gwmni.

11.8 Cynigir cymorth i'r myfyriwr i sicrhau ei fod yn deall y Polisi ar Ymarfer Annheg.

11.9 Gofynnir i'r myfyriwr gadarnhau a yw am i gyfarfod y panel gael ei gynnal yn y Gymraeg. Os bydd angen darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i fodloni cais y myfyriwr, fe'i hysbysir o hyn cyn cyfarfod y panel.

11.10 Diben y Panel yw ystyried y dystiolaeth a gyflwynir a phenderfynu, ar sail tebygolrwydd, a yw'r honiad wedi'i brofi, gan ddefnyddio'r broses isod:

1. Bydd yr Arweinydd Rhaglen yn cyflwyno'r achos yn erbyn y myfyriwr i'r panel cyn y cyfarfod. Bydd y myfyriwr yn derbyn copi o'r wybodaeth hon cyn cyfarfod y panel.
2. Bydd y panel yn gofyn cwestiynau i'r myfyriwr ynghylch yr asesiad er mwyn sicrhau bod y ffeithiau wedi'u sefydlu. Rhoddir cyfle i'r myfyriwr godi unrhyw faterion i liniaru neu i herio'r wybodaeth a gyflwynir gan arweinydd y rhaglen.
3. Gall yr Arweinydd Rhaglen ddod i'r Panel ar gais y myfyriwr.
4. Bydd gan y myfyriwr ac unrhyw un a fydd yn gwmni iddo yn y panel hawl i glywed yr holl dystiolaeth.
5. Gall y Cadeirydd ofyn am gyfraniadau gan y sawl sydd wedi dod gyda'r myfyriwr.
6. Ar ôl clywed yr holl dystiolaeth a chwestiynau, bydd y myfyriwr yn gadael y gwrandawiad a bydd y Panel yn ystyried eu dyfarniad.
7. Gwneir y penderfyniad ar sail tebygolrwydd. Nid oes angen i'r Panel brofi bod y myfyriwr wedi bwriadu gweithredu'n annheg i'r achos gael ei brofi. Fodd bynnag, gall diffyg bwriad i weithredu'n annheg fod yn berthnasol wrth ystyried cosb briodol.
8. Cyn pennu cosb briodol, gall yr Cydlynydd Sicrhau Ansawdd roi gwybod i'r Panel am unrhyw achosion blaenorol o Ymarfer Annheg. Dylid bod yn ofalus i ystyried effaith niweidiol bosibl datgelu'r wybodaeth hon, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid ei rhannu.
9. Os bydd y Panel yn dod i'r casgliad nad yw'r achos wedi'i brofi, hysbysir y myfyriwr yn ysgrifenedig o'r penderfyniad a chaiff yr holl dystiolaeth am yr achos ei dileu o gofnodion y myfyriwr.
10. Os bydd y Panel yn dod i'r casgliad bod yr achos wedi'i brofi, bydd yn mynd ati i ystyried y gosb ar sail difrifoldeb yr ymarfer annheg, gan roi ystyriaeth i'r cosbau a argymhellir yn y weithdrefn hon ac unrhyw gynseiliau a osodwyd gan baneli blaenorol.
11. Wrth bennu'r gosb gall y Panel ystyried proffil marciau'r myfyriwr ac unrhyw amodau a rheoliadau asesu ar gyfer y rhaglen astudio dan sylw.
12. Ar gais aelodau'r Panel, gall Cadeirydd y Panel ystyried gohirio'r gwrandawiad er mwyn casglu tystiolaeth bellach.

11.11 Pan elwir tystion, rhaid darparu rhestr gyflawn o’r tystion hynny i’r Cydlynydd Sicrhau Ansawdd cyn y panel.

11.12 Mae'n bosibl y bydd y Panel am ystyried y ffactorau ychwanegol hyn wrth bennu lefel y gosb:

a. Mewn achos o lên-ladrad, a yw'r gwaith a gyflwynwyd yn deillio o gyfnod cynnar yn astudiaethau addysg uwch y myfyriwr yn GLlM.
b. Yn achos arholiadau, a fu'r drosedd o wir fantais i'r myfyriwr ai peidio.
c. A oedd natur y drosedd yn dangos bwriad pwrpasol i dwyllo'r marcwyr.
d. A fu achosion blaenorol o gamymddwyn academaidd neu ysgrifennu academaidd gwael.
e. Unrhyw amgylchiadau esgusodol a ddatganwyd gan y myfyriwr, ar yr amod bod y myfyriwr yn darparu tystiolaeth ddogfennol briodol ar amser ac yn unol â'r Weithdrefn ar Amgylchiadau Esgusodol.
f. Pan fydd hynny'n briodol, gall y Panel ohirio gwneud penderfyniad tra bydd yn disgwyl am ganlyniad y Panel Amgylchiadau Esgusodol.

11.13 Os yw'r myfyriwr yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad y Panel, rhaid iddo wneud hynny'n ysgrifenedig, gan ddilyn y broses a amlinellir yn Adran 18.

## 12. Amgylchiadau Esgusodol

12.1 Rhaid i fyfyrwyr roi gwybod am amgylchiadau esgusodol ar yr adeg y maent yn digwydd, fel y gellir gwneud trefniadau priodol, fel estyniadau i ddyddiadau cyflwyno asesiadau neu newidiadau i drefniadau arholiadau.

12.2 Ni ellir defnyddio amgylchiadau esgusodol fel cyfiawnhad dros Ymarfer Annheg ond gellir eu hystyried wrth benderfynu ar y gosb.

12.3 Gall myfyrwyr gyflwyno manylion amgylchiadau esgusodol pan fydd honiad wedi'i wneud. Rhaid i'r manylion a ddarperir fod yn uniongyrchol berthnasol i'r honiad ac i amser y camymddwyn honedig. Rhaid i fyfyrwyr gyflwyno'r manylion hyn, ynghyd â thystiolaeth ategol, cyn cynnal unrhyw gyfarfod ynghylch yr honiad. Bydd unrhyw amgylchiadau esgusodol a gyflwynir gan y myfyriwr yn parhau'n gyfrinachol a dim ond yn ôl yr angen i asesu achos y myfyriwr y cânt eu rhannu.

## 13. Cosbau

13.1 Dylid defnyddio'r rhestr hon o gosbau fel canllaw'n unig ac nid yw'n gynhwysfawr nac yn gyfyngedig.

a. Pan fydd cosb yn golygu bod yn rhaid ailgyflwyno gwaith, bydd y Bwrdd Arholi'n trin y gwaith a gyflwynir fel ymgais ailsefyll ychwanegol, oni bai bod y Panel Ymarfer Annheg yn nodi'n wahanol.
b. Pan ganiateir ailgyflwyno gwaith, bydd y Panel yn penderfynu a all myfyrwyr ailgyflwyno'r gwaith presennol gyda gwelliannau neu a oes rhaid iddynt gyflwyno darn o waith cwbl newydd.
c. Bydd cerydd ffurfiol ynghlwm wrth bob cosb, a bydd cofnod o hyn yn cael ei roi yn ffeil y myfyriwr ar eDRAC.
d. Nid yw'r cosbau y gall y Panel eu cyflwyno wedi'u cyfyngu i'r enghreifftiau a nodir yn y canllawiau hyn.

| 1. Cosbau Is | 2. Cosbau Arferol | 3. Cosbau Uwch |
|---|---|---|
| i. Dyfarnu 0% am waith a aseswyd<br>ii. Caniatáu ailsefyll / ailgyflwyno<br>iii. Capio gwaith a ailgyflwynir ar:<br>A. 40% (Lefel 4-6)<br>B. 50% (Lefel 7)<br>iv. Opsiwn i ganiatáu i fyfyriwr ailgyflwyno gwaith heb gap, ond os dewisir yr opsiwn hwn, rhaid i'r Panel esbonio'r penderfyniad. | i. Dyfarnu 0% am waith a aseswyd<br>ii. Dim ond caniatáu ailsefyll / ailgyflwyno os yw hynny'n ofynnol ac yn cael ei ganiatáu o dan y rheoliadau Arholi a dirymiadau'r rhaglen.<br>iii. Capio gwaith a ailgyflwynir ar:<br>A. 30% (Lefel 4-6)<br>B. 40% (Lefel 7) | i. Dyfarnu 0% am waith a aseswyd<br>ii. Ni chaniateir ailsefyll / ailgyflwyno, ac eithrio i wneud iawn am fethiant fel myfyriwr rhan-amser / allanol |

1. **Rhoddir Cosbau Is** pan fo un neu ragor o'r canlynol yn berthnasol:
   a. Roedd y camymddwyn yn anfwriadol neu wedi digwydd oherwydd dealltwriaeth wael o'r rheoliadau.
   b. Gweithredwyd yn fyrbwyll ac nid oedd y camymddwyn wedi'i gynllunio ymlaen llaw.
   c. Rhan gyfyngedig iawn o'r gwaith a gyflwynwyd yw'r Ymarfer Annheg.
   d. Mae yna amgylchiadau personol neu amgylchiadau eraill perthnasol.
   e. Byddai'r Gosb Arferol yn cael effaith anghymesur ar broffil marciau'r myfyriwr.

2. **Rhoddir Cosbau Arferol** pan fo un neu ragor o'r canlynol yn berthnasol:
   a. Mae'r myfyriwr yn cydnabod bod ei weithredoedd yn amhriodol ac yn deall effaith ymarfer annheg.
   b. Cynlluniwyd yr Ymarfer Annheg ymlaen llaw.
   c. Mae'r Ymarfer Annheg wedi dylanwadu ar y gwaith a gyflwynwyd, ond nid yn helaeth.
   d. Nid oes unrhyw amgylchiadau esgusodol perthnasol.

3. **Rhoddir Cosbau Uwch** pan fo un neu ragor o'r canlynol yn berthnasol:
   a. Nid yw'r myfyriwr yn cydnabod ei fod wedi ymddwyn yn amhriodol ac mae'n gwrthod cydnabod effaith yr ymarfer annheg.
   b. Mae gweithredoedd yn dangos lefel uchel o gynllunio ymlaen llaw.
   c. Mae'r Ymarfer Annheg yn rhan helaeth o'r gwaith a gyflwynwyd.
   d. Mae'r camymddwyn yn dilyn achosion blaenorol o Ymarfer Annheg a rhybudd gan y Panel.
   e. Nid oes unrhyw amgylchiadau esgusodol perthnasol.
   f. Nid yw'r Gosb Arferol yn adlewyrchiad digonol o ddifrifoldeb yr Ymarfer Annheg.

Capio'r Marc ar 30% neu 40%: Os yw'r modiwl yn un Craidd, rhaid capio'r marc ar 40% (Lefel 4-6) neu 50% (Lefel 7).

**Noder:** Os yw myfyriwr yn disgyn rhwng categorïau (e.e., awgrymir cosb uwch ar sail un maen prawf ond cosb arferol ar sail un arall), dylid defnyddio’r uchaf o'r ddwy gosb.

## 14. Cysylltiad ag Addasrwydd i Ymarfer

14.1 Pan brofir achos o gamymddwyn academaidd bach neu fawr mewn rhaglen broffesiynol, gall y Panel gyfeirio'r mater i'r corff rheoleiddio perthnasol, os bernir bod hynny'n briodol.

14.2 Os cynhelir ymchwiliad i honiad o gamymddwyn academaidd pan fydd y Bwrdd Arholi perthnasol yn cyfarfod, bydd y Bwrdd yn gohirio ystyried gwaith y myfyriwr tan fydd y Panel wedi dod i benderfyniad. Mewn amgylchiadau o'r fath, caiff marciau'r myfyriwr eu hystyried yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

14.3 Os bydd achos o Ymarfer Annheg yn cael ei brofi ar ôl i farciau'r myfyriwr gael eu cyhoeddi, bydd y Panel yn cyfeirio'r mater i sylw'r corff/sefydliad dyfarnu perthnasol.

## 15. Cefnogaeth i Fyfyrwyr mewn Gwrandawiadau

15.1 Gall y myfyriwr ddod â myfyriwr arall, ffrind, perthynas, aelod o staff GLlM i'w gwrandawiad, neu unigolyn arall sydd ei angen i'w gefnogi oherwydd anghenion penodol (e.e. gofalwr neu gyfieithydd). Fodd bynnag, ni all yr unigolyn hwnnw gael swyddogaeth gyfreithiol ac ni chaiff siarad ar ran y myfyriwr heb ganiatâd penodol y Cadeirydd, os na roddwyd rhybudd ymlaen llaw y bydd y myfyriwr yn cael ei gynrychioli (gweler isod). Os yw'r myfyriwr yn bwriadu dod â rhywun i'r gwrandawiad, dylai hysbysu'r Cydlynydd Sicrhau Ansawdd o enw'r person ymlaen llaw, gan nodi a oes ganddo gymwysterau cyfreithiol neu a yw'n cynrychioli Corff Proffesiynol. Y myfyriwr fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr unigolyn yn cael y manylion perthnasol, gan gynnwys y dyddiad, yr amser a'r lleoliad, ynghyd ag unrhyw ddogfennau perthnasol.

15.2 Rhaid i'r dysgwr roi gwybod i'r Cydlynydd Sicrhau Ansawdd am unrhyw dystion y bwriedir galw arnynt o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y panel.

15.3 Os yw'r myfyriwr yn dymuno cael ei gynrychioli gan rywun sydd â chymwysterau cyfreithiol neu gynrychiolydd o gorff proffesiynol, mae'r Grŵp yn cadw'r hawl i gael ei gynrychiolydd cyfreithiol ei hun yn bresennol. Rhaid i'r myfyriwr hysbysu'r Cydlynydd Sicrhau Ansawdd o'r bwriad hwn o leiaf bum niwrnod gwaith cyn y gwrandawiad. Bydd y ddau barti'n gyfrifol am eu costau cyfreithiol eu hunain. Y myfyriwr fydd yn gyfrifol am sicrhau bod ei gynrychiolydd yn cael y manylion perthnasol, yn ogystal â dyddiad, amser, a lleoliad y gwrandawiad.

15.4 Dylid nodi na chaiff unrhyw un ddod gyda'r myfyriwr i'r gwrandawiad os gellir profi y gallai gael mantais bersonol o wneud hynny e.e. myfyriwr arall sydd wedi ymddwyn yn groes i weithdrefnau'r Grŵp mewn modd tebyg.

## 16. Presenoldeb mewn Panel Ymarfer Annheg

16.1 Os bydd myfyriwr yn nodi y bydd yn dod i'r Panel ond yna, heb roi rheswm nac ymddiheuriad, yn peidio â gwneud hynny, bydd y Panel yn parhau yn ei absenoldeb. Os rhoddir rhesymau, bydd y Cadeirydd yn penderfynu a yw'r gwrandawiad i gael ei ohirio neu beidio.

16.2 Os na fydd myfyriwr yn gallu dod i wrandawiad am resymau eithriadol (e.e. myfyriwr rhyngwladol wedi dychwelyd adref am fod ei fisa wedi dod i ben), bydd rhaid iddo hysbysu'r Cydlynydd Sicrhau Ansawdd o leiaf bum niwrnod gwaith cyn y Panel. Os yw'n bosibl, bydd y myfyriwr yn cael cyfle i gymryd rhan yn y gwrandawiad yn electronig neu i gyflwyno datganiad ysgrifenedig i'r Panel ei ystyried.

16.3 Os bydd y myfyriwr yn gofyn am ohirio'r gwrandawiad, bydd angen cyflwyno tystiolaeth o amgylchiadau lliniarol i'r Cadeirydd i'w chymeradwyo. Gellir caniatáu gohiriad, ond dim ond unwaith.

16.4 Os bydd myfyriwr yn nodi na fydd yn dod i'r Panel neu os na fydd yn ymateb, bydd y gwrandawiad yn parhau yn ei absenoldeb.

## 17. Apeliadau

17.1 Os bydd myfyrwyr yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad a'r ôl i'r Panel Ymarfer Annheg ymdrin â'r achos, bydd rhaid iddynt gyflwyno apêl ysgrifenedig lawn i'r Cydlynydd Sicrhau Ansawdd. Rhaid derbyn yr apêl o fewn deg diwrnod gwaith i ddyddiad y llythyr sy'n hysbysu'r myfyriwr o benderfyniad y Panel. Ni fydd hysbysiad syml o ddymuniad i apelio, a gyflwynir yn ysgrifenedig o fewn y terfyn amser, yn cael ei ystyried yn apêl ddilys ac ni chaiff ei dderbyn.

17.2 Ystyrir apeliadau am y rhesymau canlynol yn unig:

a. Anghysondebau yn y modd y cynhaliwyd y gwrandawiad. Rhaid i'r rhain fod yn rhai sy'n codi amheuaeth resymol y gallai'r penderfyniad fod yn wahanol pe na baent wedi digwydd.
b. Amgylchiadau personol eithriadol. Nid oedd yr amgylchiadau hyn yn hysbys i dîm y rhaglen pan ystyriwyd achos y myfyriwr a gellir dangos eu bod yn berthnasol i'r ymarfer annheg. Rhaid i'r myfyriwr roi esboniad dilys o pam na ddatgelwyd yr amgylchiadau personol dan sylw cyn y Panel. Os gallai myfyriwr fod wedi rhoi gwybod am amgylchiadau personol eithriadol cyn y Panel, ni all ddefnyddio'r amgylchiadau hyn yn ddiweddarach fel sail dros apelio.

17.3 Ar ôl derbyn apêl, bydd y Cyfarwyddwr Addysg Uwch neu Bennaeth Cynorthwyol, nad yw wedi ymwneud â'r achos o'r blaen, yn ymgynghori, os yw hynny'n berthnasol i amgylchiadau'r achos, â Chadeirydd y Panel dan sylw.

17.4 Mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwr Addysg Uwch neu Bennaeth Cynorthwyol, nad yw wedi ymwneud â'r achos o'r blaen, wrthod achos sy'n:

- Seiliedig ar ffactorau a oedd yn hysbys i'r Panel pan benderfynwyd ar y gosb;
- Cyflwyno gwybodaeth a oedd yn hysbys i'r myfyriwr, ac y gallai fod wedi ei dwyn i sylw'r Panel cyn y cyfarfod.

17.5 Os caiff yr apêl ei derbyn, ymdrinnir â hi'n unol â gweithdrefn apelio Grŵp Llandrillo Menai.


## 18. Amserlen Paneli Ymarfer Annheg

18.1 Gwneir pob ymdrech i gydymffurfio â'r amserlenni hyn. Dylid nodi y gall amgylchiadau annisgwyl weithiau olygu na fydd modd cadw at yr amserlenni hyn.

| Amseru (dyddiad hwyraf) | Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| 5 diwrnod gwaith cyn y Panel | Hysbysu'r myfyriwr yn ysgrifenedig o'r honiad, gan gynnwys dyddiad ac amser y gwrandawiad, trefniadau'r gwrandawiad, a gofyn am gadarnhad o'i ddewis iaith (Cymraeg neu Saesneg). | Cydlynydd Sicrhau Ansawdd |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhaid i'r Arweinydd Rhaglen roi tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r achos i'r Cydlynydd Sicrhau Ansawdd. | Yr Arweinydd Rhaglen |
| | Rhaid rhoi rhestr lawn o unrhyw dystion y bwriedir eu galw i'r Cydlynydd Sicrhau Ansawdd. | Yr Arweinydd Rhaglen a'r Myfyriwr |
| 5 diwrnod gwaith cyn y Panel | Rhoi'r dogfennau sydd i'w hystyried yn y gwrandawiad i'r myfyriwr a'r Panel. | Cydlynydd Sicrhau Ansawdd |
| 3 diwrnod gwaith cyn y Panel | Dylai'r myfyriwr gadarnhau a fydd yn dod i'r gwrandawiad, ei ddewis iaith (Cymraeg neu Saesneg), ac a fydd yn dod â rhywun gydag ef ac/neu a fydd ganddo gynrychiolydd cyfreithiol neu gynrychiolydd o gorff proffesiynol. | Myfyriwr |
| | Os yw'r myfyriwr wedi gofyn am gynnal y cyfarfod yn y Gymraeg a bod angen darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, hysbysir y dysgwr am hyn trwy neges e-bost. | Cydlynydd Sicrhau Ansawdd |
| 5 diwrnod gwaith ar ôl y Panel | Bydd y myfyriwr yn cael gwybod yn ysgrifenedig am ganlyniad y gwrandawiad a'i hawl i apelio. | Cydlynydd Sicrhau Ansawdd |
| 10 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad y llythyr a anfonwyd i roi gwybod i'r myfyriwr am y canlyniad | Y Cydlynydd Sicrhau Ansawdd i dderbyn yr apêl ysgrifenedig lawn. | Myfyriwr |

## 19. Siart Llif y Weithdrefn Ymarfer Annheg



## 20. Asesiadau Effaith

### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cwblhawyd yr asesiad gan:** | Siân Pritchard | **Dyddiad:** | 11/03/2025 |
| **Cymeradwywyd yr asesiad gan:** | | **Dyddiad:** | |

| Ystyriaeth | Ymateb | Gofynion / camau rheoli arbennig |
|---|---|---|
| Pa grwpiau a warchodir a allai fod dan anfantais yn sgil y polisi neu'r broses? | Mae’r polisi hwn yn berthnasol i ddysgwyr sy'n dilyn rhaglenni AU yn y Grŵp a ddilyswyd gan Brifysgol Bangor a Edexcel/ Pearson.<br><br>Nod y polisi yw cynnal uniondeb academaidd, a'i herio lle y bo angen. Bydd y polisi'n cael ei weithredu'n deg, yn gyson ac yn brydlon.<br><br>Gall pobl ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r rhai nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt fod dan anfantais os nad ydynt yn deall y polisi, y diffiniadau o ymarfer annheg a'r camau i'w cymryd.<br><br>Mae'r polisi'n cofnodi'r angen i ystyried dylanwad neu effeithiau niweidiol datgelu gwybodaeth i'r Panel Ymarfer Annheg ac yn nodi mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid gwneud hyn. | Dylid rhoi cefnogaeth ac arweiniad priodol i unigolion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol neu'r rhai nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt er mwyn sicrhau eu bod yn deall y polisi a'r diffiniadau o ymarfer annheg a'r camau i'w cymryd a ddisgrifir ynddo. Er mwyn eu cynorthwyo i ddeall y polisi, dylai cynnig gweithredol o gefnogaeth gael ei wneud i bob aelod o staff a myfyriwr fel y bo'n briodol.<br><br>Ailaseswyd 20/05/2025 - diwygiwyd y polisi i nodi: 4.2 Mae cynnig gweithredol o gefnogaeth ar gael i bob aelod o staff a myfyriwr fel y bo'n briodol.<br><br>Trwy hyfforddiant gorfodol ar ragfarn ddiarwybod a chydraddoldeb ac amrywiaeth, darperir cefnogaeth ac arweiniad i staff i sicrhau proses niwtral o wneud penderfyniadau.<br><br>Ailaseswyd 20/05/2025 - diwygiwyd y polisi i nodi: 4.3 - Trwy hyfforddiant gorfodol ar ragfarn ddiarwybod a chydraddoldeb ac amrywiaeth, darperir cefnogaeth ac arweiniad i staff i sicrhau proses niwtral o wneud penderfyniadau. |

| | | |
|---|---|---|
| Pa grwpiau a warchodir a allai gael budd o'r polisi neu'r broses? | Bydd pob myfyriwr ac aelod staff yn elwa wrth i'r polisi ymdrechu i gynnal uniondeb academaidd, a'i herio pan fo angen.<br>Gall unigolion nad yw'r Saesneg na'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt, unigolion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r rhai ag anabledd neu bryder iechyd elwa ar ddarpariaethau yn y polisi sy'n eu galluogi i gael cwmni ffrind, perthynas, myfyriwr arall, aelod o staff GLlM, neu unrhyw unigolyn arall sydd ei angen i'w cefnogi oherwydd anghenion penodol (e.e., gofalwr neu gyfieithydd).<br>Os bydd myfyriwr rhyngwladol wedi dychwelyd adref am fod ei fisa wedi dod i ben, cyn cyfarfod o'r Panel, gwneir trefniadau i alluogi'r unigolyn i gymryd rhan yn y cyfarfod yn electronig. | |
| A yw'r polisi'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn meithrin cysylltiadau da? | Mae’r polisi hwn yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n dilyn rhaglenni AU yn GLlM ac mae'n ymdrechu i gynnal uniondeb academaidd.  Bydd darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y polisi yn cefnogi dysgwyr i gael unrhyw honiadau o arfer annheg wedi'u clywed yn deg gan banel priodol. | |
| A allai unrhyw ran o'r broses wahaniaethu'n anghyfreithlon? | Nid os dilynir y polisi fel y disgrifir. | |
| A oes polisïau eraill y mae angen eu newid er mwyn ategu effeithiolrwydd yr un hwn? | Na. | |
| **Casgliad** | Parhau â'r polisi | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **LLOFNOD:** | Siân Pritchard | **Dyddiad:** | 11/03/2025, 20/05/2025 |

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

| Cwblhawyd yr asesiad gan: | Siân Pritchard | Dyddiad: | 11/03/2025 |
|---|---|---|---|
| **Cymeradwywyd yr asesiad gan:** | | **Dyddiad:** | |

| Ystyriaeth | Ymateb | Gofynion / camau rheoli arbennig |
|---|---|---|
| Pa effeithiau cadarnhaol gaiff gweithredu'r polisi neu'r weithdrefn ar y defnydd o'r Gymraeg? | Ynghyd â pholisïau a gweithdrefnau cefnogol eraill y Grŵp, mae'r polisi hwn yn cydnabod hawliau unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg pan gynhelir ymchwiliad i Ymarfer Annheg a Phanel Dilynol. Noda'r Polisi: 'Gofynnir i'r myfyriwr gadarnhau a yw am i gyfarfod y panel gael ei gynnal yn y Gymraeg. Os bydd angen darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i fodloni cais y myfyriwr, fe'i hysbysir o hyn cyn cyfarfod y panel.' | |
| Pa effeithiau negyddol gaiff gweithredu'r polisi neu'r weithdrefn ar y defnydd o'r Gymraeg? | Dim oherwydd y cynnig gweithredol i ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithredu'r polisi. | |
| A oes digon o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i weithredu'r polisi neu'r weithdrefn? | Oes. Mae digon o staff AU, llyfrgell a thechnoleg dysgu, a rheoli ansawdd sy'n siarad Cymraeg yn cael eu cyflogi gan y Grŵp i sicrhau bod y polisi hwn yn gallu cael ei weithredu yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog.<br><br>Os nad oes digon o staff sy'n siarad Cymraeg i gefnogi hyn, gellir darparu cefnogaeth gan uwch reolwr arall neu, drwy gyfieithu ar y pryd fel yr amlinellir yn y polisi. | |
| Os nad oes, pa gamau a gymerir i sicrhau bod digon o staff ar gael, ac | | |

| | | |
|---|---|---|
| erbyn pryd? | | |
| A yw'r polisi neu'r weithdrefn yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg/Strategaeth Iaith Grŵp Llandrillo Menai? | Ydi. | |
| **Casgliad** | Parhau â'r polisi. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **LLOFNOD:** | Siân Pritchard | **Dyddiad:** | 11/03/2025 |

## Asesiad o'r Effaith ar Gynaliadwyedd

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cwblhawyd yr asesiad gan:** | Lisa Fowlie | **Dyddiad:** | 19/03/2025 |

| Ystyriaeth | Ymateb | Gofynion / camau rheoli arbennig |
|---|---|---|
| Sut fydd y polisi hwn yn effeithio ar strategaeth gynaliadwyedd y Grŵp? | Ni fydd y polisi hwn yn effeithio ar Bolisi'r Grŵp ynghylch Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd. | |
| **Casgliad** | Parhau â'r Polisi a'i brosesu | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **LLOFNOD:** | Lisa Fowlie | **Dyddiad:** | 19/03/2025 |